



Cefnogi Pobl Gwent

Cynllun Strategol Rhanbarthol 2017–2020

Diweddariad Blynyddol 2018-2019



Cydweithio dros Pobl gyda Chefnogaeth

Cynnwys

Rhif
Tudalen

Adran 1: Cyflwyniad	3
Adran 2: Blaenoriaethau strategol	5
Adran 3: Cyflenwad, asesiad anghenion, dadansoddiad canlyniadau, tystiolaeth ymgynghori a bylchau gwasanaeth	15
Adran 4: Blaenoriaethau ar gyfer datblygu gwasanaethau	35
Adran 5: Arbedion effeithiolrwydd i wella darpariaeth gwasanaeth	40
Adran 6: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	43
Adran 7: Cynllun Gwariant 2017/2018	44
Adran 8: Manylion timau Cefnogi Pobl	45

Mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn cyllido ystod eang o wasanaethau cefnogaeth arloesol yn gysylltiedig â thai ar gyfer pobl agored i niwed ledled Gwent, a all fod mewn risg o golli eu cartrefi a'u hannibyniaeth.

Mae natur ataliol y rhaglen Cefnogi Pobl yn cefnogi amcanion polisi lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n helpu pobl i fyw'n annibynnol yn y gymuned. Mae gwasanaethau Cefnogi Pobl yn helpu atal digartrefedd, allgau cymdeithasol, arwahanrwydd a sefydliadu. Mae gwasanaethau hefyd yn helpu gyda gostwng troseddau ac anrhefn.

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglen Cefnogi Pobl yw:

"Cymru lle nad oes neb yn ddigartref a phawb â chartref diogel lle gallant ffynnu"

Mae'r math o wasanaethau a gyllidir gan grant rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru yn cynnwys cynlluniau tai â chymorth megis hostelau i'r digartref, llochesi cam-drin domestig a gwasanaethau cymorth fel y bo angen (cefnogaeth cysylltiedig â thai a ddarperir o fewn cartref person neu leoliad arall addas).

Yn ystod 2016/17 cefnogodd y rhaglen Cefnogi Pobl yng Ngwent gyfanswm o 22,826 o bobl.

Cyflwyniad i ranbarth Gwent



Mae Gwent yn cynnwys pump ardal awdurdod lleol: Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd, Sir Fynwy a Thorfaen. Mae gan ranbarth Gwent yr un ffiniau daearyddol â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae demograffeg Gwent yn amrywiol ac maent yn cynnwys ardaloedd gwledig, canolfannau trefol a'r mwyaf dwyreiniol o gymoedd de Cymru.

Mae **Blaenau Gwent** yng nghymoedd de ddwyrain Cymru ac mae ganddi arwynebedd o tua 10,900 hectar gyda phoblogaeth o 69,674*. Mae'n ardal gyda lefelau uchel o ddiweithdra a chanran uchel o bobl sy'n dibynnu ar fudd-daliadau.

Caerffili sydd â'r boblogaeth fwyaf yng Ngwent o 179,941*. Cafodd ei phobl eu gwasgaru'n eang ymysg hanner cant o drefi bach a phentrefi gyda'r prif anheddiadau i

raddau helaeth yn adlewyrchu treftadaeth lofaol yr ardal. Mae tranc y diwydiant glofaol wedi gadael gwaddol o ddiweithdra uchel ac iechyd gwael.

Dosberthir **Sir Fynwy** fel 'ardal hygyrch lled wledig'. Mae pedair prif dref, gyda chyfanswm poblogaeth o 92,336*. Sir Fynwy sydd â'r lefel isaf o ddiweithdra yng Ngwent, fodd bynnag mae pocedi o amddifadedd yn amlwg yng ngogledd y Fenni.

Casnewydd yw'r ganolfan drefol drydedd fwyaf o ran maint yng Nghymru gyda phoblogaeth o 146,841*. Y ddinas sydd â'r nifer ail uchaf o bobl o gymunedau lleiafrif ethnig o holl siroedd Cymru (ar ôl Caerdydd) ac mae wedi parhau i gynyddu ers 2009 pan amcangyfrifwyd fod y ffigur yn 6.6% o'r boblogaeth.

Torfaen yw'r mwyaf dwyreiniol o gymoedd trefol de Cymru gyda phoblogaeth o 91,609. Mae tair canolfan drefol: Pont-y-pŵl, Blaenafon a Chwmbrân. Yng nghyfrifiad 2016 o Sipsiwn a Theithwyr, a gynhelir bob dwy flynedd, yn Nhorfaen y cofnodwyd y nifer fwyaf o garafanau teithwyr gyda chyfanswm o chwe deg un, 40.66% o gyfanswm Gwent.

* Amcangyfrifon poblogaeth lefel cenedlaethol Ystadegau Cymru.

Adran **2** Blaenoriaethau Strategol

Mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn fframwaith polisi trawsbynciol sy'n cysylltu gydag ystod eang o flaenoriaethau a strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae amrywiaeth o gynlluniau polisi a deddfwriaethol sy'n dylanwadu ar ddarpariaeth, cyfeiriad a chyflenwi gwasanaethau cefnogaeth cysylltiedig â thai yn y dyfodol ar gyfer pobl agored i niwed yng Ngwent. Maent yn sbardunau allweddol yng Nghynllun Strategol Rhanbarthol Gwent a ddatblygwyd i gwmpasu nodau'r rhaglen Cefnogi Pobl.

Trosolwg cefnogol

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nod y Ddeddf yw cryfhau trefniadau llywodraethiant presennol ar gyfer gwella llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru i sicrhau y caiff anghenion presennol eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gyflawni eu hanghenion eu hun. Mae angen i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd ac edrych ar atal problemau a gweithredu mewn dull mwy cydlynol.

Gyda chyflwyno'r prosiect Hyblygrwydd Cyllid o 2018/2019 rhagwelir gweithio agosach a hyblygrwydd ar draws rhaglenni Cefnogi Pobl, Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Chronfa Waddol Cymunedau yn Gyntaf a'r Grant Cyflogadwyedd newydd. Caiff rhaglenni Trechu Tlodi eu gwireddu.

Cynigir dau faes o waith ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19, y ddau ohonynt yn ceisio adeiladu ar y negeseuon cadarnhaol a ddaw o'r gwerthusiad o'r prosiect aliniad; y cyntaf yw cynllun braenaru 'Hyblygrwydd Llawn' a'r ail yn rhaglen 'Hyblygrwydd Estynedig'.

Bydd rhaglen braenaru Hyblygrwydd Llawn yn rhoi 100% o hyblygrwydd ar draws grantiau er mwyn sicrhau mwy o aliniad rhwng rhaglenni, gwneud defnydd mwy effeithlon o gyllid a diwallu anghenion lleol. Disgwylir y bydd cynyddu'r rhyddid ariannol a hyblygrwydd yn alluogi ardaloedd peilot i weithio mewn modd gwahanol, gan roi mwy o gwmpas i ddylunio gwasanaethau i gefnogi ymgyrch y Llywodraeth i sicrhau dulliau mwy ataliol, hirdymor. Caiff y cynllun peilot ei gynnal mewn 7 awdurdod lleol ledled Cymru. Yng Ngwent mae Casnewydd a Thorfaen yn ardaloedd peilot ar gyfer hyblygrwydd llawn.

Bydd awdurdodau lleol nad ydynt yn rhan o'r cynllun braenaru Hyblygrwydd Llawn yn cael 15% o hyblygrwydd ar draws y grantiau gwreiddiol. Bydd yr 'hyblygrwydd estynedig' hwn yn eu galluogi i gynllunio'n fwy strategol, alinio rhaglenni a darparu gwasanaethau mwy ymatebol i ddiwallu anghenion eu dinasyddion.

Deddf Tai (Cymru) 2014

Mae Deddf Tai Cymru yn ddarn pwysig o ddeddfwriaeth sy'n cysylltu tai gyda strategaethau cenedlaethol megis diogelwch cymunedol, plant a phobl ifanc, iechyd a gofal cymdeithasol, pobl hŷn a busnes ac economi. Mae'r Ddeddf yn rhoi blaenoriaeth i ddarparu cefnogaeth hanfodol i bobl i gynorthwyo wrth ganfod a chadw cartref ac mae'n cael effaith pellgyrhaeddol ar y gwasanaethau a ddatblygir dan y rhaglen Cefnogi Pobl yng Ngwent.

Mae'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gymryd 'pob cam rhesymol i sicrhau datrysiad tai addas ar gyfer pob aelwyd sy'n ddigartref neu dan fygythiad digartrefedd' yn arwain at gynydd sylweddol yn y galw am wasanaethau a gyllidir gan Cefnogi Pobl. Mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn ymateb i'r her hon drwy weithio'n agos gyda thimau tai awdurdodau lleol ar draws y rhanbarth i ailfodelu gwasanaethau presennol, datblygu gwasanaethau cefnogaeth penodol newydd a/neu ganfod gweithwyr cefnogaeth arbenigol ychwanegol o fewn y timau opsiynau tai i ateb yr agenda strategol hwn.

Cynrychiolir tai ar RCC Gwent gan gynrychiolwyr awdurdodau lleol o Dorfaen a Chaerffili a chynrychiolwyr landlordiaid a darparwyr cefnogaeth. Mae hyn yn galluogi'r RCC i gadw'n gydwastad â'r newidiadau a gynigir i'r Ddeddf a'r effaith a gaiff hyn ar y rhaglen Cefnogi Pobl. Mae cyfrannu tuag at ddatblygu'r strategaethau ranbarthol newydd ar ddigartrefedd fydd eu hangen gan awdurdodau lleol o 2018 yn flaenoriaeth ar gyfer RCC Gwent erbyn diwedd 2018.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn rhoi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chefnogaeth, gofalwyr sydd angen cefnogaeth, ac ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r Ddeddf yn cydnabod y nifer cynyddol o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol. Er mwyn helpu i ateb a gostwng y galw, mae'n amlinellu'r angen am gynyddu ymyriad cynnar cynhwysfawr a gwasanaethau cefnogaeth ddwys. Bydd gan wasanaethau Cefnogi Pobl rôl hanfodol wrth ddarparu cefnogaeth ataliol i bobl agored i niwed er mwyn cyflawni'r agenda strategol yma.

Mae cynrychiolwyr Gwasanaethau Cymdeithasol o Flaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd a Sir Fynwy yn mynychu RCC Gwent gan alluogi'r RCC i gadw'n gydwastad â'r newidiadau a gynigir gan y Ddeddf ac effaith hyn ar y rhaglen Cefnogi Pobl. Mewn rhai ardaloedd comisiynwyd swyddi Cysylltwyr Cymunedol i sicrhau y symudir ymlaen â gwaith ataliol fel sydd ei angen gan y Ddeddf. Mae gweithiwr cefnogaeth iechyd meddwl (a gomisiynwyd fel cynllun peilot ym Mlaenau Gwent) yn

seiliedig o fewn y Tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol i gynorthwyo ymhellach gyda dyletswyddau ataliol Deddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Bydd gwasanaethau a gyllidir gan Cefnogi Pobl yn cael sylw sylweddol fel rhan o'r gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth y gall pobl agored i niwed gael mynediad iddynt. Bydd sicrhau fod gwasanaethau Cefnogi Pobl yn hygyrch i bobl gymwys agored i niwed yng Ngwent ac ategu gwasanaethau cyffredinol a chymunedol presennol a phecynnau gofal yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer RCC Gwent.

Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

Mae'r ddeddfwriaeth yn canolbwyntio ar atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, diogelu dioddefwyr a chefnogi'r rhai y mae materion o'r fath yn effeithio arnynt.

Ymysg pethau eraill, mae'r Ddeddf yn anelu i:

- Wella trefniadau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o, ac atal, diogelu a chefnogi dioddefwyr trais seiliedig ar ryw, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Cyflwyno dull seiliedig ar anghenion i ddatblygu strategaethau fydd yn sicrhau cyfeiriad strategol cryf a chryfhau atebolrwydd
- Sicrhau perchnogaeth lefel strategol, drwy benodi Ymgynghorydd Gweinidogol fydd â rôl yn cynghori Gweinidogion Cymru a gwella cydweithio ymysg asiantaethau ar draws y sector
- Gwella cysondeb, ansawdd a chydlynw darpariaeth gwasanaeth yng Nghymru

Mae Cadeirydd RCC Gwent yn aelod o Fwrdd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) De Ddwyrain Cymru i gynrychioli RCC Gwent. Mae hyn yn sicrhau y cedwir cysylltiadau agos rhwng y byrddau rhanbarthol, lle caiff y ddau fforwm eu hysbysu am newidiadau sy'n cael eu gweithredu fel canlyniad i'r Ddeddf a blaenoriaethau a datblygiadau sy'n gysylltiedig gyda Chynllun Strategol Rhanbarthol Cefnogi Pobl Gwent. Mae'r ffrydiau gwaith o dan y bwrdd rhanbarthol yn cael eu mynychu gan y RDC a hefyd aelodau ymgynghorol y RCC. Ffurfiwyd cysylltiadau agos gyda'r tîm rhanbarthol gan alluogi rhannu gwybodaeth ar draws y gwasanaethau a gomisiynwyd drwy'r rhaglen Cefnogi Pobl a'r cynnydd a wnaed yn unol ag argymhellion Adroddiad Moderneiddio Cam-drin Domestig (Gwent) 2012. Fel prif gyllidwyr gwasanaethau cam-drin domestig ledled Gwent, mae rhannu gwybodaeth yn gynorthwyo Bwrdd VAWDASV De Ddwyrain Cymru i gasglu'r wybodaeth y mae ei angen i fapio'r holl wasanaethau cam-drin domestig a gomisiynwyd ar draws y rhanbarth.

Fel o fis Ebrill 2016 mae gosod offer caledu targed yn awr yn gymwys am gyllid grant rhaglen Cefnogi Pobl. Cafodd dull cronos o ddarparu offer caledu targed ei ddatblygu

yng Ngwent ac mae ar gael drwy'r timau opsiynau tai ym mhob awdurdod lleol yng Ngwent.

Mae cynorthwyo gyda datblygu a gweithredu gofynion Ddeddf VAWDASV yn flaenoriaeth i RCC Gwent.

Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

Bydd Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) yn ei gwneud yn symlach ac yn rhwyddach i rentu cartref, gan ddisodli darnau amrywiol cymhleth o ddeddfwriaeth bresennol gydag un fframwaith cyfreithiol clir.

Daw'r Ddeddf i rym yn 2017/18. Unwaith y daw i rym, bydd y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid gyhoeddi datganiad ysgrifenedig o'r contract defnydd sy'n nodi'n glir hawliau a chyfrifoldebau landlordiaid a'r rhai sy'n rhentu ganddynt. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu contractau enghreifftiol am ddim i helpu landlordiaid i gydymffurfio gyda'r gofyniad hwn.

Bydd pobl sy'n eu cael ei hunain mewn amgylchiadau anodd hefyd yn cael budd o'r Ddeddf. Bydd yn helpu atal sefyllfaoedd presennol o ddigartrefedd lle mae cyd-denant yn gadael y denantiaeth, gan felly ddiweddu'r denantiaeth i bawb arall. Bydd yr ymagwedd newydd at gontractau ar y cyd hefyd yn helpu dioddefwyr cam-drin domestig drwy ei gwneud yn bosibl targedu person sy'n gyfrifol am gam-drin domestig am ddadfeddiannu.

Mae'r Papur Gwyn yn gydnaws gydag agendâu strategol eraill. Mae'n cynnig ymateb mwy effeithlon i ymddygiad gwrthgymdeithasol rhai aelwydydd a thrin cam-drin domestig drwy dargedu gweithredu ar y tramgwyddydd a galluogi'r dioddefwyr i aros yn eu cartrefi.

Mae'r Ddeddf yn anelu sicrhau cydraddoldeb ar gyfer pobl ifanc (16 a 17 oed) drwy eu galluogi i rentu ar yr un sail ag oedolyn. Bydd angen i'r rhaglen Cefnogi Pobl ymateb i'r newidiadau arfaethedig hyn drwy sicrhau y gall gwasanaethau ymateb i gynnydd mewn galw.

Caiff tai a Cartrefi Cymunedol Cymru eu cynrychioli ar RCC Gwent gan alluogi'r pwyllgor i gadw'n gydwastad â'r newidiadau arfaethedig a'r effaith a gaiff hyn ar wasanaethau'r rhaglen Cefnogi Pobl. Cafodd y pwyllgor hefyd gyfle i fwydo i broses ymgynghori'r Bil drwy ei aelodau Tai.

Deddf Diwygio Llesiant 2012

Mae'r Ddeddf Diwygio Llesiant yn parhau i gyflwyno ystod eang o ddiwygiadau. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno'r Credyd Cynhwysol sy'n disodli llawer o fudd-daliadau presennol ac yn cyfyngu cyfanswm budd-dal y gall person ei hawlio. Bydd y diwygiadau Llesiant yn effeithio ar y ffordd mae tenantiaid yn derbyn budd-dal, mewn llawer o achosion yn dileu'r opsiwn i dalu budd-daliadau'n uniongyrchol i landlordiaid.

Mae nifer y bobl sydd wedi cysylltu gyda gwasanaethau Cefnogi Pobl gyda phroblemau am fudd-daliadau ac arian yn parhau i gynyddu a dangoswyd hyn yn ffurflenni Ymarferiad Mapio Anghenion Gwent (GNME) dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf sy'n parhau i ddangos fod trin arian yn un o'r anghenion cefnogaeth y mae pobl yn gofyn amdano amlaf.

Mae RCC Gwent yn croesawu deddfau Llywodraeth Cymru a newidiadau deddfwriaethol a pholisi dilynol unigryw yng Nghymru ac er eu bod yn cyflwyno rhai heriau, maent wedi eu hymwreiddio yn y Cynllun Strategol Rhanbarthol hwn fel blaenoriaethau ar gyfer datblygu dros y 3 blynedd nesaf.

Caiff cwmpas ac amrywiaeth y rhaglen Cefnogi Pobl hefyd ei adlewyrchu mewn ystod eang o strategaethau a chynlluniau cenedlaethol eraill. Mae gan y dilynol ddylanwad dros gyfeiriad y Cynllun Strategol Rhanbarthol yng Ngwent a darparu gwasanaethau Cefnogi Pobl i bobl agored i niwed:

- Gweithio gyda'n Gilydd i Ostwng Niwed - Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru 2008 - 2018
- Astudiaeth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yng Nghymru
- Strategaeth Pobl Hŷn yng Nghymru (2013/23)
- Cynllun Digartrefedd Deng Mlynedd i Gymru

Adolygiad Llety â Chymorth

Mae cyhoeddiadau diweddar gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol a'r Adran Gwath a Phensiynau ar Llety â Chymorth yn newid sylweddol i sefyllfa flaenorol Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae Llywodraeth Cymru wedi croesawu'r newidiadau yn gyffredinol fel gostyngiad sylweddol yn y risgiau sy'n wynebu darpariaeth ar gyfer pobl agored i niwed. Nodweddion allweddol y cyhoeddiad yw:

- Cadarnhad na fyddir yn edrych eto ar y penderfyniad i beidio gweithredu Lwfans Tai Lleol yn y sector Rhent Cymdeithasol, y bwriad yw fod hyn 'oddi ar y bwrdd' yn hirdymor.
- Y bydd cyllid ar gyfer Llety Garchod a Llety Gwarchod Gofal Ychwanegol yn parhau o fewn y system budd-daliadau lles. Bydd hawlwyd yn parhau i dderbyn eu taliadau rhent a gwasanaethau cymwys drwy Fudd-dal Tai. Nid oes mwyach fwriad i ddatganoli yng nghyswllt y mathau hyn o lety.
- Yn yr un modd, bydd cyllid ar gyfer tai â chymorth hirdymor/anabl yn parhau o fewn y system budd-daliadau lles ar hyn o bryd ond bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn ystyried ffyrdd i uno yn y system Credyd Cynhwysol.
- Fodd bynnag, mae'r bwriad yn parhau i ddatganoli cyllid ar gyfer llety â chymorth 'tymor byr' i Gymru. Bydd hyn yn cynnwys rhent craidd a hefyd gostau rheoli tai ychwanegol yn golygu y bydd yr holl gyllid ar gyfer y gosodiadau hyn dan reolaeth Cymru. Fodd bynnag, bydd hyn yn awr yn symud yn arafach gyda

bwriad i ddatganoli cyllid o fis Ebrill 2020 yn hytrach na 2019 fel y nodwyd yn flaenorol.

Mae RCC Gwent yn croesawu ymgynghoriad ac ymgysylltu pellach yng nghyswllt y cyhoeddiadau diweddar a bydd yn parhau i gyfrannu at yr Adolygiad Llety â Chymorth yn neilltuol ar gyfer Cymru.

Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru: Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru

Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad o raglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru yn edrych os yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi trefniadau effeithlon ar waith i drin y rhaglen Cefnogi Pobl a sicrhau ei bod yn cyflenwi gwasanaethau ansawdd uchel sydd wedi'u targedu'n briodol. Gwneir wyth argymhelliad a all effeithio ar ddarpariaeth y rhaglen Cefnogi Pobl yn y dyfodol; gellir gweld copi o'r adroddiad llawn yma:

<https://www.wao.gov.uk/system/files/publications/Supporting-People-2017-English.pdf>

Trosolwg rhanbarthol

Mae'r trefniadau llywodraethiant a sefydlwyd drwy'r RCC wedi helpu i godi proffil y rhaglen Cefnogi Pobl ar draws llawer o'r fforymau rhanbarthol, byrddau a chynlluniau a sefydlwyd yng Ngwent. Caiff y grwpiau a'r fforymau a nodir yn yr adran hon eu cynrychioli un ai gan bresenoldeb aelodau RCC Gwent a all sicrhau y caiff blaenoriaethau Cefnogi Pobl eu hystyried ac maent hefyd yn gyfrifol am adborth ar eitemau perthnasol i gyfarfod RCC Gwent.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Fel y nodir yn Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol sefydlu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i reoli a datblygu gwasanaethau ar gyfer cynllunio strategol a gweithio partneriaeth a sicrhau bod gwasanaethau effeithlon, gofal a chefnogaeth yn eu lle i ddiwallu anghenion eu poblogaeth berthnasol.

Amcanion y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yw sicrhau bod cyrff partneriaeth yn cydweithio'n effeithlon i:

- Ymateb i'r asesiad poblogaeth a gynhaliwyd unol ag Adran 14 y Ddeddf, a
- Datblygu, cyhoeddi a gweithredu'r cynlluniau ardal ar gyfer pob rhanbarth fel sydd angen dan adran 14A y Ddeddf.
- Sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn rhoi digon o adnoddau ar gyfer y trefniadau partneriaeth, yn unol â'u pwerau dan adran 167 y Ddeddf.
- Hyrwyddo sefydlu cronfeydd cyllid lle'n briodol.

Bydd hefyd angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol roi blaenoriaeth i integreiddio gwasanaethau yng nghyswllt:

- Pobl hŷn gydag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, yn cynnwys dementia.
- Pobl gydag anableddau dysgu.
- Gofalwyr, yn cynnwys gofalwyr ifanc.
- Gwasanaethau integredig Cymorth i Deuluoedd.
- Plant gydag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch.

Daeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gwent Fwyaf yn aelod wedi'i gyfethol o RCC Gwent yn ystod Chwarter 3 2016 gan ffurfioli'r strwythurau adrodd rhwng yr RCC a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Diben Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal drwy gryfhau cydweithio ar draws pob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

Trosolwg

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus statudol fydd yn disodli'r Byrddau Gwasanaethau Lleol gwirfoddol yn ardal pob awdurdod lleol. Bydd pob Bwrdd yn:

- Asesu cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn ei ardal.
- Gosod amcanion a gynlluniwyd i gynyddu cyfraniad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus at nodau llesiant.

Mae'n rhaid i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi a chyhoeddi cynllun yn nodi ei amcanion y bydd yn eu cymryd i'w cyflawni. Gelwir hyn yn Gynllun Llesiant Lleol. Mae'n rhaid iddo ddweud:

- Pam fod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn teimlo y bydd eu hamcanion yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant o fewn eu hardal leol.
- Sut y mae wedi rhoi ystyriaeth i'r asesiad o lesiant lleol wrth gyflawni ei amcanion a'r camau i'w cymryd.

Cydnabuwyd y rhaglen Cefnogi Pobl fel cynllun allweddol yng nghyswllt cyflenwi llawer o ganlyniadau ac amcanion Cynlluniau Integredig Sengl y Byrddau Gwasanaethau Lleol blaenorol. Rhagwelir y bydd y gydnabyddiaeth hon yn parhau. Mae gan dimau Cefnogi Pobl ymrwymiad i weithio gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gyflawni'r themâu a'r blaenoriaethau allweddol a amlygir o fewn eu cynlluniau gweithredu lleol unwaith y byddant wedi ei llunio.

Bydd creu aliniad agosach gyda RCC Gwent a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a ddatblygwyd yn ddiweddar yn flaenoriaeth allweddol i'r Cynllun Strategol Rhanbarthol hwn.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wrthi'n ystyried sut y byddant yn cydweithio a rhagwelir y sefydlir trefniadau ffurfiol i sicrhau bod partneriaethau effeithlon yn eu lle.

Bwrdd Partneriaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domesig a Thrais Rhywiol Gwent

Gan adeiladu ar Fforwm Cam-drin Domestig Gwent, sefydlwyd y Bwrdd i roi'r cyfrwng llywodraethiant i'r bartneriaeth ranbarthol ar gyfer gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'r Bwrdd yn gyfochrog â Bwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru a Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent. Bydd pob un o'r tri Bwrdd yn cysylltu i roi fframwaith ar gyfer llywodraethiant diogelu a bydd yn sicrhau fod cysylltiadau cyfathrebu yn bodoli gyda phartneriaethau strategol aml-asiantaeth yn gweithio ar draws y rhanbarth.

Bydd y Bwrdd yn darparu arweinyddiaeth uwch yn dod ynghyd ag asiantaethau i gydweithio mewn ffordd gydlynol a sicrhau y darperir y gwasanaethau gorau posibl i ddiogelu a chefnogi dioddefwyr ac atal troseddau. Lle mae bylchau mewn gwasanaeth neu ddiffygion mewn perfformiad, daw'r Bwrdd â'r asiantaethau allweddol ynghyd i flaenoriaethu a thrin materion.

Mae Cefnogi Pobl yn gwneud cyfraniad sylweddol at gyllido gwasanaethau trais domestig ar draws y rhanbarth, gan gyllido gwasanaethau seiliedig ar lety a hefyd wasanaethau cymorth fel y bo'r angen. Cynrychiolir Cefnogi Pobl gan bresenoldeb Cadeirydd y RCC yn y Bwrdd Strategol. Fel safle cynnar i fabwysiadu'r cynllun peilot a gweithredu'r broses cyn ymestyn "Gofyn a Gweithredu", mae Swyddogion Arweiniol Cefnogi Pobl a'r Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol yn mynychu'r gweithgorau a sefydlwyd i symud y gwaith ymlaen.

Bwrdd Cynllunio Ardal Gwent ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau

Ei rôl yw gweithredu fel fforwm i ddod ynghyd â phob asiantaeth sy'n ymwneud â chynllunio, comisiynu a chyflenwi materion camddefnyddio sylweddau ar lefel ranbarthol. Mae'n rhoi fframwaith ranbarthol ar gyfer gwneud penderfyniadau i asesu angen ar draws pob cymuned, cronni arbenigedd ac adnoddau, monitro effaith y strategaeth genedlaethol a gwella a chryfhau cynllunio, comisiynu a rheoli perfformiad camddefnyddio sylweddau.

Mae Cefnogi Pobl yn gwneud cyfraniad sylweddol i gynorthwyo pobl gyda phroblemau camddefnyddio sylweddau yng Ngwent drwy ddarparu cynlluniau tai â chymorth a gwasanaethau cymorth fel y bo'r angen. Mae cynrychiolwyr a enwebwyd gan RCC

Gwent yn gyswllt rhwng y Bwrdd Cynllunio Ardal ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau a'r RCC.

Rhaglen Mewn Un Lle

Mae rhaglen Mewn Un Lle yn rhaglen ar y cyd a lansiwyd yn ystod 2014 i wella darpariaeth llety i rai gydag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth o fewn rhanbarth daearyddol Gwent. Mae rhaglen Mewn Un Lle yn dod ynghyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, y pump awdurdod lleol ac wyth cymdeithas tai.

Cynrychiolydd Iechyd yr RCC yn y RCC yw Cydlynnydd Un Lle sy'n sicrhau bod y rhaglen Cefnogi Pobl yn bwydo mewn i'r rhaglen gydweithredol.

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddau

Rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yw sicrhau y caiff anghenion plismona cymunedau Gwent eu diwallu fel bod pobl yn ddiogel a bod ganddynt hyder yn y gwasanaethau a ddarperir gan yr heddlu ac yn fodlon gyda nhw.

Mae Jeff Cuthbert, Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent, yn cynrychioli pobl Gwent drwy sicrhau fod y gwasanaeth a ddarperir gan yr heddlu yn effeithiol, effeithlon a darbodus. I sicrhau y caiff anghenion plismona cymunedau eu cyflawni, mae'r Comisiynydd wedi ymgynghori'n eang gyda'r cyhoedd ar y gofynion plismona ar gyfer Gwent. Bydd y Cynllun Heddlu a Throseddau yn nodi ei flaenoriaethau allweddol ar gyfer Gwent a chyflwynir hyn i'r cyhoedd ym mis Ebrill 2017.

Daeth y Comisiynydd Heddlu a Throseddau yn aelod wedi'i gyfethol heb bleidlais o RCC Gwent yn 2014 ac mae Cadeirydd RCC Gwent hefyd yn awr yn mynychu Bwrdd Comisiynu Strategol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a Phartneriaeth Gwent Ddiogelach i gynrychioli RCC Gwent; mae'r synergeddau a'r cysylltiadau rhwng y grwpiau hyn yn amlwg ac yn cael eu deall a rhagwelir y bydd cysylltiadau a phartneriaethau yn cryfhau ymhellach yn y dyfodol.

Gwasanaeth Adsefydlu Cymunedol (CRC) Gwent - Darparydd

Gwasanaethau Prawf

Mae CRC Gwent yn darparu ystod eang o wasanaethau prawf i helpu gostwng aildroseddau a diogelu'r cyhoedd rhag niwed. Maent yn gweithio gyda throseddswyr risg isel a risg canolig, rheoli eu dedfrydau cymunedol a rhoi'r wybodaeth, sgiliau a'r gefnogaeth i'w galluogi i beidio troseddau. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni adferiad ac adsefydlu arbenigol, gwaith di-dâl talu'n ôl i'r gymuned, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, mentora a gweithio gyda theuluoedd troseddswyr. Maent hefyd yn rheoli'r rhai a gafodd eu rhyddhau o'r carchar ar drwydded.

Perchennog CRC Cymru yw Working Links, cwmni gwirfoddol cyhoeddus a phreifat sy'n ymroddedig i helpu pobl newid eu bywydau er gwell.

Mae CRC Cymru wedi ymwneud yn llawn â llywodraethiant yr RCC ers ei sefydlu yn 2012.

Cyflenwad, asesiad anghenion, dadansoddi canlyniadau, tystiolaeth ymgynghoriad a bylchau gwasanaeth

Mae'r timau Cefnogi Pobl lleol wedi sefydlu fframweithiau cynllunio a chomisiynu lleol a rhanbarthol sy'n:

- Creu darlun clir o gyflenwad gwasanaethau ac anghenion cefnogaeth cysylltiedig â thai a ddynodwyd ar draws yr ardal a'r rhanbarth.
- Galluogi cynllunio gwasanaethau i gyflawni bylchau a ddynodwyd mewn darpariaeth gwasanaeth.
- Datblygu a chynnal gwasanaethau ansawdd da sy'n gynaliadwy, yn strategol berthnasol ac yn cynnig gwerth am arian.
- Sicrhau fod gwasanaethau yn canolbwyntio ar y dinesydd, gan roi anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn gyntaf drwy gynnal ymgynghoriad priodol a rhoi cyfleoedd i gymryd rhan wrth gynllunio, comisiynu ac adolygu gwasanaethau a gyllidir gan Cefnogi Pobl.

Mae proses cynllunio strategol Gwent yn cynnwys casglu a dadansoddi setiau data a gwybodaeth lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r ffynonellau gwybodaeth a data a ystyrir yn cynnwys:

Demograffeg

- Data cenedlaethol a rhanbarthol: data cenedlaethol perthnasol, sydd ar gael drwy Uned Data Cymru, Daffodil ac Info Base Cymru.

Cyflenwad

- Map cyflenwad: caiff hyn ei gwblhau gan dimau lleol Cefnogi Pobl ar sail flynyddol a'i gasglu'n rhanbarthol; ar gyfer y Cynllun Strategol Rhanbarthol, roedd y data yn giplun o wasanaethau fel ar 1 Ebrill 2016.
- Argaeledd gwasanaethau a darpariaeth arall.

Galw

- Gwybodaeth monitro darparwyr yn cynnwys rhestri aros a chyfraddau gwag; caiff darparwyr eu monitro drwy ddulliau contractiol a chynllunio strategol gan dimau Cefnogi Pobl awdurdodau lleol.

Anghenion

- Mae Ymarfer Mapio Anghenion Gwent yn casglu gwybodaeth ar unigolion sy'n cyflwyno i wasanaethau digartrefedd, darparwyr gwasanaethau Cefnogi Pobl, gweithwyr cymdeithasol, swyddogion prawf a gwasanaethau perthnasol eraill yn

yr ardal leol. Caiff y ffurflen ei chasglu'n lleol ac mae wedyn yn bwydo i ddyfais casglu data rhanbarthol a gaiff ei reoli gan y Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol.

- Y digwyddiad blynyddol cynllunio anghenion. Gwahoddir rhanddeiliaid i fynychu, a rhoi eu sylwadau a'u syniadau ar wasanaethau a ddarperir yn lleol a rhanbarthol; mae gwybodaeth o'r digwyddiadau hyn yn helpu i roi gwybodaeth ar gyfer deall anghenion na chaiff eu diwallu.
- Ffurflen cynnig prosiect rhanbarthol: rhoi cyfle i rhanddeiliaid â diddordeb i roi gwybodaeth sy'n cynorthwyo cynllunio gwasanaethau rhanbarthol ar draws Gwent.
- Mae defnyddwyr gwasanaeth yn greiddiol yn y Rhaglen yng Ngwent. Ymgynghorir â defnyddwyr gwasanaeth ar y rhaglen Cefnogi Pobl drwy amrywiaeth o ddulliau megis gwerthusiadau gasanaeth, digwyddiadau tystiolaeth anghenion, holiaduron archwiliad ansawdd, prosesau comisiynu a chaffael ac aelodaeth ar fyrdau prosiect ar gyfer datblygiadau newydd. Cynhaliwyd y digwyddiad rhanbarthol cyntaf i ddefnyddwyr gwasanaeth yn Nhorfaen ar yr un pryd a lansio gwefan defnyddwyr gwasanaeth a'r arolwg defnyddwyr gwasanaeth.
- Mae'r Fframwaith Canlyniadau Cefnogi Pobl yn casglu gwybodaeth yn cyfeirio at un ar ddeg o ganlyniadau llesiant ar draws pedair thema; mae hyn yn galluogi comisiynwyr a rhanddeiliaid eraill i benderfynu buddion derbyn cymorth cysylltiedig â thai i wella bywydau pobl agored i niwed.
- Mae blaenoriaethau strategol a bylchau mewn darpariaeth gwasanaeth o strategaethau eraill, seiliau tystiolaeth a fforymau hefyd yn cyfrannu at ddealltwriaeth o anghenion.

Ymchwil a data arall

- Ystyrir ymchwil gan grwpiau diddordeb a sefydliadau eraill pan y'i cyhoeddir e.e. Joseph Rowntree, Shelter.

Cyflenwad

Mae cronfa ddata map cyflenwi rhanbarthol wedi'i sefydlu, a ddatblygwyd dros y naw mlynedd diwethaf sy'n cynnwys manylion cynlluniau presennol seiliedig ar lety a chymorth fel y bo angen; caiff hyn ei ddiweddarau fel ciplun o wasanaethau a gomisiynwyd ar draws y rhanbarth ar 1 Ebrill bob blwyddyn.

Dengys y cyflenwad cyfredol o wasanaethau bod 13882 uned a 10828.49 awr cymorth wedi'i gontractio gan 83 o ddarparwyr cymorth ar draws Gwent ar y dyddiad hwn.

Cymhariaeth o grynodedbau map cyflenwi (ciplun fel ar 1 Ebrill 2016 a 2017)

Crynodeb yn ôl Awdurdod Arweiniol 2017		
Awdurdod Arweiniol	Uned	Awr
Blaenau Gwent	486	0
Caerffili	5299	2364
Sir Fynwy	2252	1582.45
Casnewydd	2152	6763.04
Torfaen	3693	119
Cyfanswm	13882	10828.49

Crynodeb yn ôl Awdurdod Arweiniol 2016		
Awdurdod Arweiniol	Uned	Awr
Blaenau Gwent	515	169
Caerffili	5785	4566.5
Sir Fynwy	2651	1570.45
Casnewydd	2584	6215.04
Torfaen	3628	119
Cyfanswm	15163	12640

Mae'r ddau dabl uchod yn dangos cymhariaeth unedau ac oriau a gomisiynwyd gan bob awdurdod lleol fel ar 1 Ebrill 2016 a 2017.

Crynodeb yn ôl math Cynllun 2017		
Math Cynllun	Unedau	Oriau
Larwm	10814	0
Gwarchod/Henoed Cymorth fel y bo angen	1638	967.5
Cymorth fel y bo angen	1014	7018.2
Mynediad Uniongyrchol	32	322
Tai â Chymorth Parhaol	133	970.5
Tai â Chymorth Dros Dro	251	1550.29
Cyfanswm	13382	10828.49

Crynodeb yn ôl math Cynllun 2016		
Math Cynllun	Unedau	Oriau
Larwm	12107	0
Gwarchod/Henoed Cymorth fel y bo angen	1647	1020.5
Cymorth fel y bo angen	929	8613.35
Mynediad Uniongyrchol	40	262
Tai â Chymorth Parhaol	193	1200.5
Tai â Chymorth Dros Dro	247	1543.64
Cyfanswm	15163	12640

Mae'r tablau uchod yn rhoi crynodeb o nifer yr unedau ac oriau cymorth a gomisiynwyd yn ôl math cynllun fel ar 1 Ebrill 2016 ac 1 Ebrill 2017.

Mae'r tablau islaw yn dangos cymhariaeth o nifer unedau ac oriau a gomisiynwyd gan y grŵp cleient fel ar 1 Ebrill 2016 ac 1 Ebrill 2017. Mae'r tablau'n dangos y cynnydd yn y gwsanaethau a gomisiynwyd ymysg categorïau cleientiaid.

Crynodeb yn ôl Grŵp Cleientiaid 2017		
Grŵp Cleientiaid	Unedau	Oriau
Pobl gydag Anabledd Dysgu	234	1083
Pobl gyda phroblemau Iechyd Meddwl	310	1665.45
Pobl gyda phroblemau Alcohol	0	36
Pobl gyda phroblemau Camddefnyddio Sylweddau	16	361
Pobl gydag Anabledd Corfforol a/neu Synhwyraidd	0	193.5
Gwasanaethau Larwm (yn cynnwys gwarchod/gofal ychwanegol)	10627	0
Pobl gyda Chyfiawnder Troseddol	50	267
Cyffredinol/Cymorth fel y bo Angen/Peripatetig	445	2799.75
Pobl gydag Afiechydon Cronig yn cynnwys HIV, Aids	0	0
Pobl gyda Statws Ffoadur	0	37
Pobl dros 55 oed gydag Anghenion Cymorth	1835	1057.5
Pobl gydag Anhwylderau Datblygu	0	195
Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal	8	77
Pobl Ifanc gydag Anghenion Cymorth 16-24	141	738.15
Teuluoedd gydag Anghenion Cymorth	96	368
Teuluoedd Un Rhiant gydag Anghenion Cymorth	2	49
Menywod yn profi Cam-drin Domestig	103	801.75
Dynion yn profi Cam-drin Domestig	5	8.75
Pobl Sengl gydag Anghenion Cymorth (25-54)	10	1090.64
Cyfansymiau	13882	10828.49

Crynodeb yn ôl Grŵp Cleientiaid 2016		
Grŵp Cleientiaid	Unedau	Oriau
Pobl gydag Anabledd Dysgu	289	1177
Pobl gyda phroblemau Iechyd Meddwl	233	2341.95
Pobl gyda phroblemau Alcohol	0	0
Pobl gyda phroblemau Camddefnyddio Sylweddau	16	354
Pobl gydag Anabledd Corfforol a/neu Synhwyraidd	6	254.9
Gwasanaethau Larwm (yn cynnwys gwarchod/gofal ychwanegol)	11920	0
Pobl gyda Chyfiawnder Troseddol	41	230
Cyffredinol/Cymorth fel y bo Angen/Peripatetig	183	3911.5
Pobl gydag Afiechydon Cronig yn cynnwys HIV, Aids	0	0
Pobl gyda Statws Ffoadur	0	0
Pobl dros 55 oed gydag Anghenion Cymorth	2148	1244.5
Pobl gydag Anhwylderau Datblygu	0	188
Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal	8	56
Pobl Ifanc gydag Anghenion Cymorth 16-24	121	696.1
Teuluoedd gydag Anghenion Cymorth	85	312
Teuluoedd Un Rhiant gydag Anghenion Cymorth	2	116
Menywod yn profi Cam-drin Domestig	88	837.25
Dynion yn profi Cam-drin Domestig	5	8.75
Pobl Sengl gydag Anghenion Cymorth (25-54)	18	912.04
Cyfansymiau	15163	12640

Mae'r tablau yn dangos tystiolaeth o'r cynnydd mewn gwasanaethau a gomisiynwyd ar draws categorïau cleientiaid a gafodd eu blaenoriaethu gan yr RCC ac maent yn cyd-fynd gyda chyfeiriad strategol cenedlaethol y Rhaglen.

Cynlluniau Trawsawdurdod a Rhanbarthol Cefnogi Pobl Gwent 2017

Mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn cyllido 518 uned a 1397.44 awr o gefnogaeth ar gyfer cynlluniau traws-awdurdod neu ranbarthol ledled Gwent. Gellir gweld y cynlluniau rhanbarthol cyfredol a'r gwasanaethau traws-awdurdod yn y siart islaw. Mae gan bob gwasanaeth gontract uniongyrchol gyda'r Awdurdod Lleol arweiniol sy'n gyfrifol am fonitro ac adolygu contract.

Gwasanaethau rhanbarthol neu isranbarthol a thraws-awdurdod a gaiff eu cyd-gyllido

Awdurdod Arweiniol	Grŵp Cleientiaid	Nifer Unedau neu Oriau	Contract yn ôl Unedau neu Oriau	Math o Gynllun
Blaenau Gwent	Menywod yn profi Cam-drin Domestig	6	uned	Tai â Chymorth Dros Dro
Caerffili	Menywod yn profi Cam-drin Domestig	4	uned	Tai â Chymorth Dros Dro
Caerffili	Menywod yn profi Cam-drin Domestig	4	uned	Tai â Chymorth Dros Dro
Caerffili	Menywod yn profi Cam-drin Domestig	4	uned	Tai â Chymorth Dros Dro
Caerffili	Menywod yn profi Cam-drin Domestig	4	uned	Tai â Chymorth Dros Dro
Sir Fynwy	Pobl dros 55 oed gydag anghenion cymorth	63	awr	Gwarchod/cymorth pobl hŷn fel y bo'r angen
Sir Fynwy	Gwasanaethau larwm (yn cynnwys gwarchod/gofal ychwanegol)	374	uned	Larwm
Sir Fynwy	Pobl gyda chyfiawnder troseddol	12	uned	Cymorth fel y bo'r angen
Sir Fynwy	Pobl dros 55 oed gydag anghenion cymorth	8	uned	Gwarchod/cymorth pobl hŷn fel y bo'r angen
Sir Fynwy	Pobl dros 55 oed gydag anghenion cymorth	44	uned	Larwm
Sir Fynwy	Menywod yn profi cam-drin domestig	5	uned	Tai â chymorth dros dro
Casnewydd	Menywod yn profi cam-drin domestig	112	awr	Mynediad uniongyrchol
Casnewydd	Pobl gydag anabledd dysgu	6	awr	Tai â chymorth parhaol
Casnewydd	Menywod yn profi cam-drin domestig	150	awr	Mynediad uniongyrchol
Casnewydd	Pobl sengl gydag anghenion cymorth (25-54)	919.44	awr	Tai â chymorth dros dro
Casnewydd	Pobl ifanc sy'n gadael gofal	16	awr	Tai â chymorth dros dro
Casnewydd	Teuluoedd gydag anghenion cymorth	72	awr	Cymorth fel y bo angen
Casnewydd	Pobl gydag Anabledd Dysgu	6	awr	Tai â chymorth parhaol
Torfaen	Pobl gyda Chyfiawnder troseddol	22	uned	Cymorth fel y bo angen
Torfaen	Cyffredinol/Cymorth fel y Bo Angen/Peritatig	20	Uned	Cymorth fel y bo angen

Dolenni Cyfeiriadur Gwasanaethau Lleol Cefnogi Pobl Gwent

Gellir cael mynediad i'r rhestr o wasanaethau lleol a gyllidir gan y rhaglen Cefnogi Pobl drwy'r cyfeiriaduron gwasanaeth unigol yn defnyddio'r dolenni islaw:

Blaenau Gwent

http://www.blaenau-gwent.gov.uk/fileadmin/documents/Resident/Health_and_Social_Care/Supporting_People_Service_Directory.pdf

Caerffili

http://your.caerphilly.gov.uk/supportingpeople/sites/your.caerphilly.gov.uk/supportingpeople/files/docs/SP%20Directory%20English_0.pdf

Sir Fynwy

Nid oes tudalen gwefan ar gael ar hyn o bryd; cysylltwch â'r tîm Cefnogi Pobl i gael cyfeiriadur gwasanaethau Sir Fynwy

Casnewydd


<http://www.newport.gov.uk/documents/Care-and-Support/Newport-Directory-of-Supporting-People-Services-2015.pdf>

Torfaen

<http://www.torfaen.gov.uk/en/Related-Documents/Supporting-People/Directory-of-Services.pdf>

Diweddariad gwariant

Mae'r siart dilynol yn rhoi trosolwg o sut y dyrannwyd gwariant ar bob un o categorïau cleientiaid Cefnogi Pobl ar gyfer Cynllun Gwariant 2017/2018 ac mae'n rhoi cymhariaeth gyda chynllun gwariant 2016/17 a 2015/2106.



**Mae rhai materion cefnogaeth lle ymddengys mai ychydig o wariant uniongyrchol sydd yn tueddu i gael eu cefnogi gan brosiectau eraill sy'n derbyn cyllid a ddyranwyd dan gategoriâu cleientiaid eraill, e.e. salwch cronig, dynion yn profi cam-drin domestig, camddefnyddio sylweddau, rhieni sengl, anabledau corfforol, nam ar y synhwyrac ac ymadawyr gofal.*

Mae'r ddeddfwriaeth newydd a gyflwynwyd yn ddiweddar yn penderfynu beth fydd cyfeiriad a sut y caiff rhaglen Cefnogi Pobl ei chyflwyno yng Ngwent yn y dyfodol; mae timau Cefnogi Pobl yn parhau i ddatblygu gwasanaethau sy'n gynyddol ataliol o ran natur er mwyn diwallu eu gofynion i gyflenwi dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Anghenion


Dadansoddiad Ymarferiad Mapio Anghenion Gwent (GNME) Ebrill 2016 - Mawrth 2017

Caiff y ffurflen GNME ei dosbarthu i asiantaethau sy'n gweithio gyda phobl agored i niwed i'w llenwi ar sail barhaus.

Mae'n ddull cynllunio a ddefnyddir i gasglu gwybodaeth ar anghenion llety cyfredol a dyfodol, anghenion cymorth cysylltiedig â thai ac anghenion cymorth ychwanegol unigolion sy'n cyflwyno i'r gwasanaeth digartrefedd, darparwyr Cefnogi Pobl a sefydliadau perthnasol eraill e.e. Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Prawf.


Mae'r fersiwn ddiweddaraf o ffurflen GNME a lansiwyd ar draws Gwent ar 1 Ebrill 2015 yn adlewyrchu'r Fframwaith Canlyniadau yn well; cwblhawyd adolygiad o ddadansoddiad data yn ystod 2016 i sicrhau fod y data'n cyfeirio at flaenoriaethau megis digartrefedd.

Yn ystod 2015/2016 derbyniwyd cyfanswm o 4940 o ffurflenni GNME ar draws pum awdurdod Gwent, cynnydd o dros fil o ffurflenni o gymharu gyda'r cyfnod adrodd blaenorol. Mae'r timau Cefnogi Pobl yn parhau i godi proffil y ffurflen GNME i sefydliadau i gynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cyflwyno'r data fel dull cynllunio anghenion.




"Ers 2003 cafodd dros 40,000 o ffurflenni GNME eu dychwelyd i dimau lleol Cefnogi Pobl, gan roi gwybodaeth sylweddol i ddadansoddi anghenion cymorth cysylltiedig â thai yn lleol ac yn rhanbarthol."

Casglu Data Rhanbarthol Anghenion Arweiniol ac Eilaidd



Cymharu Anghenion Arweiniol ac Eilaidd yn ôl Awdurdodau Lleol




Mae'r graffiau uchod yn rhoi dadansoddiad o'r anghenion arweiniol ac eilaidd y mae pobl yn eu cyflwyno i wasanaethau yn ôl casgliad rhanbarthol ac yn ôl cymhariaeth awdurdodau lleol o'r data.

Mae'r data'n parhau i ddangos fod pobl yn cyflwyno i wasanaethau gyda'r un prif anghenion categori cleientiaid ag mewn blynyddoedd blaenorol; eleni mae iechyd meddwl yn ymddangos un ai fel angen arweiniol neu eilaidd ym mhob awdurdod lleol.

Mae'r siart tafell islaw'n dangos y problemau iechyd meddwl y rhai a lenwodd yr GNME; fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae pryder ac iselder yn parhau i fod â prif faterion iechyd meddwl.

Ymddengys fod gan bron chwarterer y rhai a lenwodd yr GNME ddiagnosis o gyflwr iechyd meddwl.

Mae'r argyfwng tai yn cyfrannu at ddatblygu problemau iechyd meddwl neu'n gwneud problemau iechyd meddwl yn llawer anos eu trin heb gefnogaeth. Mae'r RCC wedi rhoi blaenoriaeth i adolygu categori cleientiaid Pobl gyda Phroblemau Iechyd Meddwl ar gyfer eu cynllun gwaith 2017-2019.




Mae'r dadansoddiad o'r graff islaw'n dynodi pump uchaf angen llety y rhai a lenwodd y GNME.






Llety presennol (ble ydych chi'n byw ar hyn o bryd)?		
	Rhyw	
Math llety	Gwryw	Benyw
Llety Lluedd Arfog	1	1
Llety Gofal Ychwanegol	10	10
Ysbyty - Meddygol	13	3
Ysbyty - Seiciatrïg	24	15
Hostel	203	121
Byw gyda theulu neu ffrindiau	176	269
Tenantiaeth hirdymor/ sicr, e.e. Awdurdod Lleol/Landlord Cymdeithasol Cofrestredig/ Cymdeithas Tai	659	1184
Llety dros dro/tenantiaeth ansicr yn cynnwys gwely a brecwast	171	182
Perchen-feddiannwr	268	470
Lloches nos	62	11
Carchar	22	1
Rhent preifat, yn cynnwys y sector rhent preifat	213	400
Llety gwarchod	53	62
Lloches (cam-drin domestig)	0	180
Syrffio soffâ	167	126
Cysgu ar y stryd/digartref stryd	106	19
Rhannu tŷ	26	15
Tai â chymorth	87	49
Arall, e.e. carafân ac yn y blaen	32	53
Cyfanswm	2293	3171

Math o gefnogaeth sydd ei angen			
	Rhyw		
	Gwryw	Benyw	Cyfan
Teimlo'n ddiogel	692	1142	1834
Cyfrannu at ddiogelwch/llesiant eich hun ac eraill	584	712	1296
Rheoli llety	1248	1644	2892
Rheoli perthynas	591	942	1533
Teimlo'n rhan o'r gymuned	632	857	1489
Trin arian	1153	1515	2668
Ymgysylltu mewn addysg/dysgu	355	499	804
Cymryd rhan mewn cyflogaeth/gwaith gwirfoddol	404	464	868
Bod yn gorfforol iach	591	766	1357
Bod yn feddyliol iach	746	1018	1764
Bod â ffordd o fyw iach ac egniol	569	642	1211

Ymgyfraniad asiantaethau eraill



Mae'r tablau a'r graffiau uchod yn dangos ym mha fath o lety mae pobl yn byw ynddo pan fyddant yn cysylltu ag asiantaethau i gael cymorth, y meysydd y maent angen cymorth gyda nhw a'r nifer sy'n derbyn cymorth gan asiantaeth statudol arall.



Mae'r tablau a'r graffiau uchod yn rhoi dadansoddiad o'r data digartrefedd a gasglwyd drwy ddull casglu Ymarfer Mapio Anghenion Gwent.

Fframwaith Canlyniadau Cefnogi Pobl

Mae'r Fframwaith Canlyniadau yn anelu i arddangos effeithlonrwydd y rhaglen Cefnogi Pobl ac yn casglu gwybodaeth sy'n amlygu buddion derbyn cymorth cysylltiedig â thai i wella bywydau pobl agored i niwed. Bu Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a darparwyr cymorth yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu Fframwaith Canlyniadau ers 2008, a bu casglu'r data canlyniadau yn orfodol ar gyfer gwasanaethau a gyllidir gan Cefnogi Pobl ers mis Ebrill 2012 .

Diben y fframwaith yw:

- Mabwysiadu system i gasglu gwybodaeth ystyrlon ar ganlyniadau.
- Defnyddio'r wybodaeth i fesur, cynnal a gwella ansawdd gwasanaethau a ddarperir.
- Adnabod effeithlonrwydd y rhaglen Cefnogi Pobl.

Mae'r tablau'n dangos y cafodd categorïau canlyniadau un ai eu cyflawni'n llawn neu sicrhau canlyniad cadarnhaol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth yn ystod 2016/2017. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella ansawdd y data a gyflwynwyd ac i ddeall yr wybodaeth yn well fel y gellir ei dadansoddi i ddatblygu gwasanaethau ymhellach.

		Cyfnod 1 (2016)			
2016-2017 Canlyniadau Data mis Gorffennaf i mis Rhagfyr 2016		Angen a ddynodwyd	Canlyniad cadarnhaol a gyflawnwyd	Cyflawni'r canlyniad yn llawn	% yn gwneud cynnydd a chyflawni'n llawn
1	Teimlo'n Ddiogel	6332	876	3066	62%
	Cyfrannu at ddiogelwch/llesiant eich hun ac arall	5506	626	2476	56%
2	Rheoli Llety	8559	1226	3060	50%
	Rheoli Perthnasoedd	5514	721	2428	57%
	Teimlo'n Rhan o'r Gymuned	5032	558	2344	58%
3	Rheoli Arian	7811	1070	2997	52%
	Cymryd rhan mewn Addysg/Dysgu	2729	292	1297	58%
	Cymryd rhan mewn Cyflogaeth/ gwaith gwirfoddol	2647	261	1244	57%
4	Corfforol Iach	5546	634	1926	46%
	Meddyliol Iach	6280	901	2023	47%
	Ffordd o Fyw Iach ac Egniol	5115	569	2201	54%

		Cyfnod 2 (2017)			
2016-2017 Canlyniadau Data mis Ionawr i fis Mehefin 2017		Angen a ddynodwyd	Canlyniad cadarnhaol a gyflawnwyd	Cyflawni'r canlyniad yn llawn	% yn gwneud cynnydd a chyflawni'n llawn
1	Teimlo'n Ddiogel	6588	780	3240	61%
	Cyfrannu at ddiogelwch/llesiant eich hun ac arall	5687	700	2585	58%
2	Rheoli Llety	8950	1289	3238	51%
	Rheoli Perthnasoedd	5824	848	2593	59%
	Teimlo'n Rhan o'r Gymuned	5310	533	2591	59%
3	Rheoli Arian	8583	1197	3378	53%
	Cymryd rhan mewn Addysg/Dysgu	2972	256	1603	63%
	Cymryd rhan mewn Cyflogaeth/ gwaith gwirfoddol	2852	237	1535	62%
4	Corfforol Iach	5864	726	1983	46%
	Meddyliol Iach	6740	1089	2177	48%
	Ffordd o Fyw Iach ac Egniol	5456	636	2377	55%

Fframwaith Canlyniadau Cefnogi Pobl

Cwblhawyd gwaith ar y fframwaith deilliannau yn ystod 2017. Rhagwelir y caiff y fframwaith ddiweddaraf ei lansio yn ystod 2018-2019.

Tystiolaeth o'r ymgynghoriad

Cynhaliwyd y trydydd 'diwrnod cynllunio anghenion' yn ystod 2017. Gwahoddwyd darparwyr a rhanddeiliaid ar draws Gwent i'r digwyddiad a fformat y diwrnod oedd sesiwn galw heibio, gan alluogi unigolion i roi gwybodath mewn ffordd anffurfiol.

Gofynnwyd i'r rhai oedd yn bresennol feddwl am y gwasanaethau cymorth cysylltiedig â thai sydd ar gael ar gyfer y grwpiau y maent yn ymwneud â nhw a rhoi sylwadau ar y cwestiynau dilynol ar bob un o'r categori cleientiaid Cefnogi Pobl ar sail leol a ranbarthol :

- 1) Beth ydych chi'n feddwl yw'r bylchau mewn darpariaeth cymorth presennol cysylltiedig â thai ar lefel leol a ranbarthol?
- 2) Unrhyw awgrymiadau sut y gallai'r rhaglen Cefnogi Pobl weithio'n agosach gyda'r rhaglenni eraill Trechu Tlodi, Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg i roi gwell canlyniadau ar gyfer pob grŵp cleient.

Yn ychwanegol, gofynnwyd i gynrychiolwyr eleni feddwl am y gwasanaethau cymorth cysylltiedig â thai sydd yn eu lle, a:

- 3) Beth yw'r bylchau yn y ddarpariaeth gwasanaeth digartrefedd presennol?

Mae'r sylwadau a gafwyd gan ddarparwyr cymorth ac asiantaethau partner yn dangos mai'r angen mwyaf oedd datblygu gwasanaethau rhanbarthol ar gyfer pobl ifanc a phobl ifanc gyda phroblemau iechyd meddwl. Rhoddwyd llawer o sylw i ymatebion ymyriad cynnar a gwasanaethau ataliol ar y dydd ynghyd â lefel cymorth lefel isel fel y bo angen a gwasanaethau cefnogi celcian.

Ymatebion i fylchau mewn darpariaeth gwasanaethau digartrefedd rhanbarthol

- Olrhain aelwydydd heb fod yn flaenoriaeth i ddeall costau llawn digartrefedd i wasanaethau eraill*
- Diffyg llety dros dro
- Dim mwy o lety gwely a brecwast - materion diogelwch
- Prinder mawr o lety preifat sy'n derbyn budd-dal tai
- Mwy o lety argyfwng ar benwythnosau
- Angen datblygu strategaeth ranbarthol ar ddigartrefedd sy'n cynnwys llwybrau symud ymlaen a chefnogaeth - cyswllt i Cefnogi Pobl Gwent a'r RSP
- Cefnogaeth diwylliannol briodol*
- Ni chaiff unrhyw gwaith cysgwyr stryd ei gyllido ar hyn o bryd heblaw yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.
- Ffocws yn bennaf ar roi pobl mewn categorïau yn hytrach nag edrych ar amgylchiadau unigol*
- Gwell cysylltiadau gyda gwasanaethau Iechyd Meddwl a Digartrefedd** / Gwell cysylltiadau gyda gwasanaethau Iechyd e.e. Iechyd meddwl, anableddau dysgu, pobl hŷn ar gyfer pecynnau mwy diwnïad o gymorth i drin anghenion
- Angen cynyddu gweithio/cynllunio ar y cyd gydag asiantaethau APB a Chamddefnyddio Sylweddau i edrych ar ddefnyddwyr gwasanaeth yn adrodd cynnydd mewn digartrefedd yn arbennig yng Nghasnewydd

Gofynnwyd i'r rhai oedd yn bresennol yn y digwyddiad i ba grwpiau cleient yr hoffent roi blaenoriaeth iddynt ar gyfer cyllid Cefnogi Pobl. Rhoddwyd tair punt Cefnogi Pobl i bawb a gofynnwyd iddynt eu rhoi yn y grwpiau cleientiaid a ffafriwyd ganddynt ar gyfer yr awdurdod lleol lle maent yn gweithio ac ar gyfer blaenoriaethau rhanbarthol. Y categorïau cleient a amlygwyd dderbyniodd y tair pleidlais arian uchaf ar gyfer pob awdurdod lleol ac yn rhanbarthol.

Canlyniadau tabl arian gan randdeiliaid Gwent

Category	BG	Caerphilly	Monmouth	Newport	Torfaen	Regional	Total
Young People 16-24	5	9	4	6	11	19	54
Single People 25-54	5	7	7	8	6	15	48
Alarms	1		6	3	2	8	20
Substance Misuse Alcohol	2	2	3	7	5	14	33
Care leavers	2	4	4	6	6	13	35
Chronic Illness	1	5		2	4	2	14
Criminal offending	6	11	4	12	7	20	60
Developmental disorders /ASD	2	2	5	3	5	12	29
Substance Misuse Drugs	3	9	3	13	9	23	60
Families with Support Needs	4	6	3	6	6	18	43
Generic	12	4	7	9	19	40	91
Learning Disabilities	4		2	12	3	18	39
Men Domestic Abuse			2		6	17	25
Mental Health	17	20	15	24	21	60	157
Over 55's	14	13	14	21	25	34	121
Physical/sensory disabilities	1	4		13	1	17	36
Refugees	1		2	6	2	10	21
Single parent families	3	3	5	8	11	23	53
Women Domestic Abuse	4	6	5	10	12	18	55

Ffurflen Cynnig Prosiect Rhanbarthol

Bob blwyddyn caiff ffurflen cynnig prosiect rhanbarthol ei dosbarthu'n eang i ddarparwyr gwasanaeth, asiantaethau partner, cyrff comisiynu a rhanddeiliaid yn rhaglen Cefnogi Pobl i gasglu gwybodaeth yn ymwneud â chynigion prosiect rhanbarthol a/neu draws-awdurdod. Gofynnodd hefyd fod partneriaid yn defnyddio'r ffurflen i awgrymu unrhyw arbedion effeithiolrwydd y gellid eu gwneud i wasanaethau cyfredol a ddarperir.

Mae'r dull yma'n galluogi cynnal cyfeiriadur o wasanaethau rhanbarthol posibl y gellir eu comisiynu ar fyr rybudd ac ar sail peilot os daw cyllid o'r adolygiad, ailfodelu neu ddigomisiynu gwasanaethau ar gael.



**Mae'r diagram uchod yn dangos Fframwaith Cynllunio Strategol Cynhwysol Gwent*

Ymgynghoriad gyda Defnyddwyr Gwasanaeth

Mae Pwyllgor Cydweithio Rhanbarthol (RCC) Cefnogi Pobl Gwent a sefydlwyd yn 2012 yn gyfrifol am sicrhau fod gwasanaethau cymorth cysylltiedig â thai yn darparu'r canlyniadau cywir ar gyfer pobl sy'n eu defnyddio ar draws Gwent. Ers ei sefydlu mae'r RCC wedi cydnabod pwysigrwydd medru ymgysylltu gydag ystod eang o ddefnyddwyr gwasanaeth presennol a chyn-ddefnyddwyr gan eu galluogi i gael dylanwad a llais ar lefel strategol y pwyllgor.

Bu'r RCC a thimau lleol Cefnogi Pobl yn gweithio'n agos gyda defnyddwyr gwasanaethau a gyllidir gan Cefnogi Pobl dros yr ychydig flynyddoedd ddiwethaf i ddatblygu ymhellach yr ystod o gyfleoedd ymgysylltu ac ymgynghori sydd ar gael iddynt.

Mae **gwefan Defnyddwyr Gwasanaeth Cefnogi Pobl Gwent** yn benllanw nifer o flynyddoedd o waith ymgysylltu a gynhyrchir ar y cyd ac mae'n arw yn ychwanegu at y gweithgareddau ymgysylltu sydd eisoes wedi datblygu'n dda sydd ar gael ar draws rhanbarth Gwent.

Cafodd **gwefan Ymgysylltu Defnyddwyr Gwasanaeth Cefnogi Pobl Gwent**, y gyntaf yng Nghymru, ei lansio'n ffurfiol ar 20 Mehefin 2017 gan Richard Clark, Dirprwy Arweinydd Cyngor Torfaen, a'r Cynghorydd David Daniels, Aelod Gweithredol dros Gymunedau, Tai a Gwrthdlodi yn **Nigwyddiad Cynllunio Anghenion Defnyddwyr Gwasanaeth Gwent**.

Hwn oedd y digwyddiad rhanbarthol cyntaf ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a gynhaliwyd gan RCC Gwent a thimau Cefnogi Pobl. Bu 99 o ddefnyddwyr gwasanaeth yn bresennol o 23 sefydliad sy'n darparu prosiectau ar draws rhai neu'r cyfan o ardaloedd awdurdodau lleol Gwent.

Yn y digwyddiad cafodd defnyddwyr gwasanaeth gyfle i lenwi'r arolwg y gallent ei gyrchu ar-lein drwy'r wefan. Roedd y sylwadau o'r diwrnod yn cynnwys:

"Digwyddiad gwyb" "Cael amser hyfryd" "Diwrnod bendigedig"
 "Nifer dda'n bresennol" "Ymdrech wych" "Lansiad llwyddiannus"

Gofynnwyd i ddefnyddwyr gwasanaeth a fynychodd y digwyddiad pa grwpiau cleient yr hoffent roi blaenoriaeth iddynt ar gyfer cyllid Cefnogi Pobl rhoddwyd tair £CP i bob person a gofynnwyd iddynt eu rhoi yn y grwpiau cleientiaid o'u dewis ar gyfer yr awdurdod lleol y gwehtiant iddo ac ar gyfer blaenoriaethau rhanbarthol. Y categorïau cleientiaid a ddangosir dderbyniodd y tair pleidlais uchaf ar gyfer arian ar draws pob awdurdod lleol ac yn rhanbarthol.

Deilliannau tabl arian gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth

Category	BG	Caerphilly	Monmouth	Newport	Torfaen	Regional	Total
Young People 16-24	0	2	1	2	4	8	17
Single People 25-54	0	7	0	0	3	16	26
Alarms	0	1	0	1	0	4	6
Substance Misuse Alcohol	0	1	1	0	3	4	9
Care leavers	1	1	0	3	3	6	14
Chronic Illness	0	0	1	1	0	7	9
Criminal offending	0	1	1	3	1	4	10
Developmental disorders /ASD	1	3	2	9	4	7	26
Substance Misuse Drugs	0	1	0	2	1	6	10
Families with Support Needs	0	2	0	4	0	13	19
Generic	0	4	1	2	3	9	19
Learning Disabilities	1	3	2	8	9	22	45
Men Domestic Abuse	5	3	1	1	2	7	19
Mental Health	2	4	3	11	8	17	45
Over 55's	3	1	0	4	3	1	12
Physical/sensory disabilities	1	1	2	0	5	22	31
Refugees	0	0	1	0	0	1	2
Single parent families	0	3	0	0	2	6	11
Women Domestic Abuse	4	10	2	6	5	10	37

Lansiwyd yr arolwg bodlonrwydd defnyddwyr cyntaf ar-lein hefyd yn y digwyddiad cynllunio anghenion defnyddwyr gwasanaeth.

62.6% o'r ymatebwyr yn derbyn cymorth fel y bo angen
34.7% yn byw mewn Tai â Chymorth
92% yn ei chael yn rhwydd i gael help neu gefnogaeth
78.7% o ymatebwyr yn credu fod y gefnogaeth a gawsant yn **Dda iawn**

[illegible]

Top 5 Services

Service	Referrals
Mental Health	120
Learning Disability	65
Physical/Sensory Disabilities	63
Domestic Abuse	62
People aged 55+	52
Single Parent Families	48
Memory Loss/Dementia	47
Generic	36
Young People	35
Chronic Illness	33
Single People	29
Alcohol	29
Multiple/Complex Needs	26
Families	25
Substance Misuse	25
Refugee Status	20
Developmental Disorder	18
Criminal Offending History	15
Young Care Leavers	14
Dual Diagnosis	8

33

Cyfleoedd presennol ymgysylltu defnyddwyr gwasanaeth gyda thimau Cefnogi Pobl



Ymgynghoriad ychwanegol

Mae defnyddwyr gwasanaeth a darpar ddefnyddwyr gwasanaeth yn llenwi'r ffurflen GNME sy'n rhoi gwybodaeth am eu hanghenion am gefnogaeth cysylltiedig â llety. Rhoddir y dadansoddiad GNME dan Adran 4 y cynllun hwn, Ymgynghorir â defnyddwyr gwasanaeth am y gwasanaeth a dderbyniant yn ystod adolygiadau dechreuol a pharhaus o wasanaeth yn defnyddio holiaduron a chyfweliadau wyneb-i-wyneb.

Mae ymgynghoriad gyda darparwyr cymorth yn cynnwys lledaenu unrhyw ddogfennau, ffurflenni a chanllawiau newydd drwy fforymau darparwyr rhanbarthol a lleol a thimau lleol Cefnogi Pobl. Ymgysylltir yn llawn â'r fforwm darparwyr lleol ac mae'n gweithio mewn partneriaeth gyda'r RCC drwy'r cynrychoilwyr a enwebwyd gan y RCC.

Cododd cyfleoedd pellach yn ystod 2017 i ymgysylltu gyda gweithgorau cenedlaethol Cefnogi Pobl yn cynnwys yr Is-grŵp Data, y Grŵp Llywodraethiant, y Grŵp Cyllid Strategol a'r Grŵp Ymchwil a Gwerthuso a chaiff Gwent ei chynrychioli'n dda ar draws yr holl grwpiau gwaith polisi cenedlaethol hyn.

Cynhelir ymgynghoriad tair wythnos ar y cynllun hwn yn ystod Tachwedd/Rhagfyr gydag ystod eang o randdeiliaid, darparwyr cymorth a defnyddwyr gwasanaeth cyn ei gymeradwyo a'i lofnodi'n ffurfiol gan Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gwent ym mis Ionawr 2018.

Timau Cefnogi Pobl Gwent

Prif swyddogaethau timau lleol Cefnogi Pobl yw dynodi bylchau yn y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau cymorth cysylltiedig â thai a datblygu sylfaen tystiolaeth sy'n rhoi rhesymeg gynhwysfawr ar gyfer adolygu, datblygu, ailfodelu a dadgomisiynu gwasanaethau cymorth cysylltiedig â thai.

Gwneir hyn drwy gasglu a dadansoddi gwahanol wybodaeth data anghenion o nifer o ffynonellau a thrwy gadarnhau cyflenwad gwasanaethau cymorth cysylltiedig â thai yn yr ardal. Mae'r dystiolaeth a gesglir drwy'r broses hon yn llunio datblygiadau comisiynu gwasanaeth y dyfodol. Mae grwpiau cynllunio lleol Cefnogi Pobl yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu gwasanaeth ar gyfer grwpiau cleientiaid agored i niwed yn seiliedig ar y dystiolaeth hon.

Caiff cynlluniau lleol eu datblygu a'u diweddarau'n flynyddol gan bob awdurdod lleol yng Ngwent gan roi sylw i'w blaenoriaethau lleol a bwriadau comisiynu ar gyfer y flwyddyn ddilynol.

Mae copïau o'r cynlluniau lleol ar gael yn defnyddio'r dolenni dan Adran 6 y Cynllun Strategol Rhanbarthol hwn.

Blaenoriaethau ar gyfer Datblygu Gwasanaethau

Blaenoriaethau Cynllun Gwaith RCC

Mae craffu a mapio pellach ar y gwasanaethau a ddarperir ar draws y gwahanol grwpiau cleientiaid yn parhau i gael ei wneud fel rhan o gynllun gwaith RCC Gwent fydd yn rhoi cyfleoedd pellach ar gyfer ailfodelu a datblygu gwasanaeth rhanbarthol yn y dyfodol.

Rhoddodd yr RCC flaenoriaeth i'r categorïau cleientiaid dilynol ar gyfer craffu ac adolygu fel rhan o gynllun gwaith 2017-2019:

- Pobl gyda phroblemau iechyd meddwl
- Pobl ifanc gydag anghenion cefnogaeth (16-24)/Pobl ifanc sy'n gadael gofal
- Adolygiad o bobl sy'n cysgu ar y stryd ac ystyried gweithredu model Tai yn Gyntaf ar gyfer y grŵp yma
- Parhau gyda gweithio partneriaeth a chydweithredu gyda thîm rhanbarthol VAWDASV.

Mae'r ddau gategori cleientiaid dilynol yn dal i gael blaenoriaeth fel rhan o gynllun gwaith RCC:

Pobl gydag anableddau dysgu

Yn ystod 2015 cytunodd y grŵp gorchwyl a gorffen ar set o egwyddorion yng nghyswllt darparu gwasanaethau i'r grŵp cleientiaid hwn a gytunwyd gydag adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol ar draws holl awdurdodau lleol Gwent. Rhoddir adroddiadau rheolaidd i'r RCC ar gynnydd lleol ar yr egwyddorion. Rhagwelir y caiff yr holl egwyddorion eu gweithredu erbyn mis Ebrill 2018.

Gwasanaethau pobl hŷn

Rhoddwyd blaenoriaeth i bobl hŷn ar gyfer craffu gan RCC Gwent fel rhan o'u cynllun gwaith 2014/2015, ac mae'r flaenoriaeth hon gan RCC Gwent wedi helpu sicrhau fod y gwaith wedi parhau i gael ei wneud yn lleol i hybu argymhellion Adolygiad Aylward 2010.

Cafodd ailfodelu gwasanaethau pobl hŷn ei ddatblygu ym mhob awdurdod lleol yng Ngwent ac mewn rhai ardaloedd caiff pob gwasanaeth yn awr eu darparu ar sail angen. Mae trafodaethau ar ailfodelu yn dal i fynd rhagddynt gyda darparwyr mewn rhai

ardaloedd a rhagwelir ar hyn o bryd y darperir pob gwasanaeth person hŷn ar sail angen erbyn Ebrill 2018.

Argymhellion Prosiect Moderneiddio Cam-drin Domestig 2012

Sefydlwyd y prosiect hwn fel canlyniad i ddarn ymchwil a werthusodd brofiadau dros 70 o ddefnyddwyr gwasanaeth a gafodd fynediad i wasanaethau statudol a chymorth. Roedd yr argymhellion oedd ar ôl i wella gwasanaethau yn cynnwys y dilynol:

Gwasanaethau seiliedig ar lety

Rhoddir blaenoriaeth i 'loches arbenigol' ychwanegol yn darparu cymorth 24 awr ar y safle ar gyfer datblygu yn ne/dwyrain y rhanbarth ar gyfer unigolion gydag anghenion cymhleth. Gwneir cynnydd i ddatblygu lloches arbenigol, rhoddwyd caniatâd cynllunio ac mae gwaith ar y safle ar fin cychwyn.

Ers cyhoeddi argymhellion yr adroddiad yn 2012; dyrannwyd £235,839 ychwanegol i gynnydd pellach a datblygu gwasanaethau ar gyfer y grŵp cleientiaid hwn.

Cynlluniau Comisiynu Lleol

Mae awdurdodau lleol Gwent wedi dweud eu bod yn bwriadu cymryd camau caarnhaol ar draws y meysydd neu grwpiau cleientiaid dilynol yn eu cynlluniau comisiynu lleol 2018/19:

Blaenau Gwent: iechyd meddwl, pobl ifanc, pobl iau gydag anableddau corfforol

Caerffili: iechyd meddwl, pobl ifanc, camddefnyddio sylweddau, teuluoedd un rhiant, digartrefedd a phobl sy'n cysgu ar y stryd

Sir Fynwy: pobl a wnaed yn fregus drwy Credyd Cynhwysol, pobl ifanc a phobl ifanc yn gadael gofal

Casnewydd: *disgwyliwr gwybodaeth*

Torfaen: cyffredinol, cam-drin domestig, iechyd meddwl, pobl ifanc, teuluoedd agored i niwed

Arbedion effeithiolrwydd i wella Darpariaeth Gwasanaeth

Cyllideb Cefnogi Pobl 2018/2019 a thu hwnt

Mae Grwpiau Cynllunio Lleol RCC Gwent a Cefnogi Pobl yn parhau i ystyried y ffordd orau o drin toriadau posibl i gyllideb Cefnogi Pobl yn y dyfodol er mwyn sicrhau fod gwasanaethau ansawdd da effeithlon o ran cost yn parhau i gael eu darparu i ddiwallu anghenion dinasyddion Gwent yn y ffordd orau. Mae'r Cynllun hwn yn gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer y rhaglen Cefnogi Pobl yng Ngwent, gan amlygu'r blaenoriaethau rhanbarthol a chyfeiriad teithio ar gyfer rhaglen Cefnogi Pobl.

Mae'r ffigurau'n dangos cyllideb sy'n amrywio ac yn fwy diweddar gyllideb sefydlog ond ansicr sy'n ei gwneud yn anodd iawn cynllunio a chomisiynu'n strategol. Y cyngor cyfredol yw y caiff cyllideb Cefnogi Pobl ei diogelu am ddwy flynedd, ond mae ansicrwydd sut y bydd hyn yn edrych ar ôl 2019/2020 os cynhwysir grant Cefnogi Pobl o fewn y gronfa Ymyriad Cynnar ac Ataliaeth ac yng Nghasnewydd a Thorfaen gyda hyblygrwydd cyllid peilot 100% i ddechrau o fis Ebrill 2018. Adeg ysgrifennu hyn mae awdurdodau lleol a'r RCC wrthi'n disgwyl arweiniad gan Lywodraeth Cymru ar gyllid a bydd yn flaenoriaeth i'r rhaglen Cefnogi Pobl dan y cynlluniau peilot.

Awdurdod Lleol	2013/2014	2014/2015	2015/2016	2016/2017	2017/2018	2018/2019 (dangosol)
Blaenau Gwent	£2,617,930	£2,699,341	£2,552,176	£2,552,176	£2,552,176	£2,552,176
Caerffili	£6,542,558	£6,592,001	£6,232,790	£6,232,790	£6,232,790	£6,232,790
Sir Fynwy	£2,171,631	£2,156,785	£2,039,174	£2,039,175	£2,039,175	£2,039,175
Casnewydd	£6,670,273	£6,734,211	£6,367,255	£6,367,256	£6,367,256	£6,366,256
Torfaen	£3,650,868	£3,636,022	£3,437,833	£3,437,834	£3,437,834	£3,437,834
Gwent	£21,653,260	£21,818,360	£20,629,230	£20,629,231	£20,629,231	£20,629,231
Cymru	£136,333,000	£134,359,000	£124,409,000	£124,409,000	£124,409,000	£124,409,000

Ers 2014 bu'r RCC yn ystyried sut y caiff gostyngiadau i gyllideb y Rhaglen yn y dyfodol eu trin ar draws y rhanbarth.

Mae egwyddorion cynhwysfawr dilynol ar gyfer Gwent a gytunwyd yn 2014 ar gyfer trin toriadau i'r gyllideb Cefnogi Pobl yn dal yn eu lle a chânt eu hystyried fel rhan o'r broses cynllunio strategol leol a rhanbarthol.

- *Bydd pob awdurdod lleol yng Ngwent yn ystyried eu blaenoriaethau strategol lleol.*
- *Bydd pob awdurdod lleol yng Ngwent yn dynodi arbedion posibl yn dilyn gwerthuso gwasanaethau.*
- *Bydd pob awdurdod lleol yng Ngwent yn dynodi arbedion o gynlluniau peilot sydd i ddod i ben.*

Cafodd dogfen "Gweithgareddau a Ganiateir yng Ngwent" ei diweddaru yn ystod 2015. Caiff gwasanaethau effeithlon cymorth cysylltiedig â thai eu cyflwyno sy'n gydnaws gyda'r meini prawf a amlinellir yng Ngweithgareddau a Ganiateir Cefnogi Pobl Gwent a Chanllawiau Diffiniadau Cymorth Cysylltiedig â Thai (2015). Ni fwriedir i'r canllawiau gyfyngu arloesi ond cynorthwyo sefydliadau ac unigolion i drin disgwyliadau a deall diben, cwmpas a ffiniau cymorth cysylltiedig â thai.

Mae rôl y RCC mewn craffu â phrosesau lleol gwneud penderfyniadau yn sicrhau fod y penderfyniadau a gymerir yn lleol yn dryloyw a theg, tra'n sicrhau fod prosiectau yn parhau i gyflawni telerau a gofynion Canllawiau Grant Rhaglen Cefnogi Pobl.


Bydd angen i RCC Gwent a Grwpiau Cynllunio Lleol Cefnogi Pobl wneud rhai penderfyniadau anodd wrth weithredu gostyngiadau cyllideb a blaenoriaethau strategol yn y dyfodol ynghyd ag arbedion effeithlonrwydd fydd yn rhaid eu hystyried a'u cytuno. Mae gweithio agosach gyda rhaglenni eraill Trechu Tlodi wedi hen ennill ei blwyf i sicrhau nad oes dyblygu darpariaeth gwasanaeth ar draws y rhaglenni ym mhob un o awdurdodau lleol Gwent. Mae sesiynau codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant yn parhau i gael eu cyflenwi i staff sy'n gweithio ar draws y rhaglenni i gynyddu dealltwriaeth a datblygu cyfleoedd rhwydweithio.

Mae'r RCC wedi cydnabod o fewn ei gynllun gwaith y bydd gweithio'n agos gyda ffrydiau buddsoddi megis y rhai a gyflwynir gan y rhaglenni Trechu Tlodi ac eraill fel y Grant Tai Cymdeithasol a'r Gronfa Gofal Canolradd a gyflwynir gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gynyddol bwysig yn y dyfodol wrth i'r cyllidebau fod dan bwysau i ddarparu gwasanaethau i'r nifer cynyddol o bobl sydd angen cefnogaeth.

Mae gweithio agosach rhwng y rhaglenni Trechu Tlodi yng Ngwent a datblygiadau a chynlluniau sy'n cefnogi darparwyr a landlordiaid cymdeithasol yn parhau i'w cyflwyno yn sicrhau y caiff defnyddwyr gwasanaeth gyfleoedd i gael mynediad i sgiliau, dysgu a chysiau a gweithgareddau seiliedig ar addysg a gyda chysylltiadau agosach yn cael eu gwneud y rhaglenni Trechu Tlodi, bydd mwy o'r cyfleoedd hyn yn seiliedig yn y gymuned gan roi'r sgiliau i ddefnyddwyr gwasanaeth gynyddu eu hyder ac adeiladu eu rhwydweithiau cymdeithasol o fewn y cymunedau y maent yn byw ynddynt. Mae mynediad i gynlluniau i rai o raglenni mwy newydd Llywodraeth Cymru, fell Cymunedau ar gyfer Gwaith a rhaglen LIFT a gyflwynir mewn rhai awdurdodau lleol yng Ngwent hefyd yn rhoi cymorth i ddefnyddwyr gwasanaeth gael mynediad i gyfleoedd gwaith a lleoliad gwaith a symud allan o gylch tlodi.

Caiff y cynlluniau hyn eu hyrwyddo i ddarparwyr cyllid Cefnogi Pobl drwy'r fforymau darparwyr cymorth lleol a rhanbarthol, digwyddiadau rhyngweithio a thrwy ddulliau cyfathrebu megis e-bost, cylchlythyr chwe misol Cefnogi Pobl Gwent a chyflenwad Twitter.


Bydd hefyd angen monitro sicrhau bod gweithwyr cefnogaeth yn ddigon medrus i fedru delio gyda'r sefyllfaoedd ariannol cynyddol gymhleth ac anodd pobl yn y dyfodol a bydd hyn angen gwneud hyn yn unol â gofynion cofrestru yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Ar hyn o bryd mae gan weithwyr cymorth yng Ngwent fynediad i ddyfais e-ddysgu a ddatblygwyd ac a gyflwynwyd gan Brosiect Cyngor Arian Gwent yn ystod 2014.



Cydnabu Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gwent yn ystod 2004 fod cydlynu ei gyfathrebu i sicrhau fod manteision y rhaglen Cefnogi Pobl yn parhau i gael eu deall gan bob rhanddeiliad yn flaenoriaeth ar gyfer y Pwyllgor. Canolbwyntiodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyfathrebu ar ddatblygu llyfryn astudiaeth achos yn amlygu manteision y Rhaglen i'r rhai sy'n derbyn gwasanaethau, yr ystod eang o wasanaethau a gyllidir a rhai o'r arbedion budd cost posibl i rhanddeiliaid statudol eraill.

Mae'r llyfryn yn parhau i gael ei ddefnyddio fel dull i gynyddu dealltwriaeth o'r mathau o wasanaethau a gyllidir.

Mae copi o'r llyfryn **"Cefnogi Pobl: Gwellu Bywydau, Atal Costau"** ar gael i'w weld drwy ddolen ar-lein: <http://online.fliphtml5.com/jtyt/ssff/>.



Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ystod 2016 a chytunodd i gynnal ymarferiad mapio i ddeall profiadau niweidiol yn ystod plentynod ar boblogaeth Cefnogi Pobl. Cafodd holiadur ei ddatblygu a'i gylchredeg i weithwyr cymorth ledled Gwent yn gofyn iddynt adolygu eu llwythi achos fel ciplun ar 30 Medi 2016 ac i lenwi'r holiadur yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd ganddynt am y person y maent yn ei gefnogi. Roedd cyfyngiadau i'r ymarferiad hwn yn cynnwys dibyniaeth ar weithwyr

cymorth i gael gwybodaeth fanwl o'r person y mae'n eu cefnogi a ph'un ai yw'r person sy'n derbyn cymorth wedi datgelu eu profiadau niweidiol yn ystod plentyndod cynharach i'w gweithiwr cymorth; cododd y cwestiwn os dylai Cefnogi Pobl fod yn gofyn am brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod fel mater o drefn ac os dylem, sut y gallai hyn ddylanwadu ar neu newid yr ymyriad cefnogaeth a gaiff ei gyflwyno wedyn.

Dengys yr wybodaeth fod rhannau o fewn poblogaeth gyfan Cefnogi Pobl Gwent wedi profi sylweddol fwy o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod na'r cyfartaledd cenedlaethol a gall y profiadau hyn fod yn parhau i effeithio ar eu hiechyd a'u llesiant a'u gallu i reoli ac ymdopi pan fyddant yn oedolion.

Cafodd nodyn gwybodaeth a dadansoddiad o'r gwaith mapio yn helpu i gynyddu dealltwriaeth uwch swyddogion o rôl Cefnogi Pobl o fewn yr agenda strategol. Mae mwy o wybodaeth am y gwaith mapio ar gael ar wefannau RCC yn: <http://www.blaenau-gwent.gov.uk/resident/health-wellbeing-social-care/getting-the-help-you-need/supporting-people/gwent-regional-collaborative-committee/>

6 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ddull sy'n helpu awdurdodau cyhoeddus i wneud yn siŵr fod eu polisiau a'r ffordd y gweithredant yn gwneud yr hyn y bwriedir iddynt ei wneud a dros bawb. Mae cynnal Asesiad fel hyn yn golygu mynd ati mewn modd systematig i asesu effeithiau tebygol (neu wirioneddol) polisiau ar bobl yng nghyswllt anabledd, rhyw, yn cynnwys hunaniaeth rhyw a chydraddoldeb hiliol a materion cydraddoldeb ehangach lle cawsant eu dewis. Os oes unrhyw effeithiau meddygol neu niweidiol yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon, mae'n rhaid eu dileu.

Cynhaliwyd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob awdurdod lleol o fewn Gwent, gan ffurfio rhan o'r broses cynllun comisiynu lleol. Gwnaed trefniadau i sgrinio hyn ar gyfer effeithiau niweidiol ar grwpiau a ddiffiniwyd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn unol â gofynion cyfreithiol pob awdurdod lleol ac ychydig o effaith anffafriol a ddynodwyd ar gyfer y grwpiau hyn.

Medrir gweld yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb llawn ar gyfer pob cynllun comisiynu lleol yn y cynlluniau comisiynu lleol ar wefannau awdurdodau lleol:

Blaenau Gwent: <http://www.blaenau-gwent.gov.uk/17499.asp>

Caerffili: <http://your.caerphilly.gov.uk/supportingpeople/commissioning-plan/local-commissioning-plan>

Sir Fynwy: *Dim ar gael ar hyn o bryd. Gofynnir i chi gysylltu â'r tîm Cefnogi Pobl i gael copi o'r asesiad effaith ar gydraddoldeb.*

Casnewydd:

<http://www.newport.gov.uk/dc/index.cfm?fuseaction=socialcare.supportingpeople&contentid=CONT335154>

Torfaen:

<http://www.torfaen.gov.uk/en/Housing/SupportedandShelteredHousing/Supportingpeople/Information-for-Professionals/Commissioning-Plans.aspx>

Cynllun Gwariant Rhanbarthol 2018/2018

Spend Plan collection period			RCC Spend Plan 2018-19 - Gwent															
Regional Collaborative Committee:			Gwent															
SPPG Annual Allocation:			20,629,231.00															
			Service Type												Local Authority contribution	Other Income	Total Units (exc LA cont)	Total (exc LA cont)
			Fixed Site (Accommodation Based)						Floating (Community Based)									
			Client Units	Less than 6 Months	Client Units	6 to 24 Months	Client Units	24 Months plus	Client Units	Less than 6 Months	Client Units	6 to 24 Months	Client Units	24 Months plus				
Client Spend Category (The category to which the service is primarily focused)	Previous year Total units from spend plan	Previous year Total cost from spend plan	Numbers	£	Numbers	£	Numbers	£	Numbers	£	Numbers	£	Numbers	£	£	£	Numbers	£
Women experiencing Domestic Abuse	251	1,836,303.11	35	872,997.07	23	363,401.04	0	0.00	60	205,328.18	137	583,943.25	0	0.00	5,000.00		255	2,025,669.54
Men experiencing Domestic Abuse	8	39,089.62	0	0.00	0	0.00	0	0.00	0	0.00	8	26,513.62	0	0.00	0.00		8	26,513.62
People with Learning Disabilities	556	2,119,943.77	0	0.00	0	0.00	303	927,885.37	0	0.00	18	53,000.00	226	601,509.72	0.00		547	1,582,395.09
People with Mental health Issues	740	3,066,653.03	0	0.00	48	572,536.05	112	766,584.33	53	185,569.86	551	1,651,447.83	110	202,264.83	46,158.99		874	3,378,402.90
People with Substance Misuse Issues (Alcohol)	18	64,816.47	0	0.00	0	0.00	0	0.00	0	0.00	18	64,208.53	0	0.00	0.00		18	64,208.53
People with Substance Misuse Issues (Drugs and Volatile substances)	133	907,981.19	0	0.00	48	617,270.73	0	0.00	12	32,558.00	78	237,192.85	24	64,576.81	0.00		162	951,598.39
People with Criminal Offending History	88	412,696.18	0	0.00	10	135,697.35	0	0.00	1	15,670.00	107	300,789.31	0	0.00	0.00		118	452,156.66
People with Refugee Status	17	59,454.78	0	0.00	0	0.00	0	0.00	0	0.00	30	73,854.97	0	0.00	0.00		30	73,854.97
People with Physical and/or Sensory Disabilities	156	256,614.93	0	0.00	0	0.00	9	25,644.00	0	0.00	124	215,450.08	0	0.00	0.00		133	241,094.08
People with Developmental Disorders (i.e. Autism)	35	167,628.86	0	0.00	0	0.00	0	0.00	0	0.00	0	0.00	63	173,870.36	0.00		63	173,870.36
People with Chronic Illnesses (including HIV, Aids)	0	0.00	0	0.00	0	0.00	0	0.00	0	0.00	0	0.00	0	0.00	0.00		0	0.00
Young People who are Care Leavers	32	123,911.13	0	0.00	2	11,671.66	0	0.00	12	11,192.84	21	74,836.55	0	0.00	0.00		35	97,701.05
Young People with Support Needs (16-24)	331	2,262,647.80	49	548,824.00	60	#####	4	24,951.45	69	129,258.04	185	471,053.33	40	43,040.00	0.00		407	2,342,911.87
Single parent Families with Support needs	8	47,676.30	0	0.00	0	0.00	0	0.00	0	0.00	16	70,833.36	0	0.00	0.00		16	70,833.36
Families with Support Needs	227	992,787.34	13	225,000.00	2	32,482.00	0	0.00	58	55,000.00	220	760,086.13	0	0.00	0.00		293	1,072,568.13
Single people with Support Needs not listed above (25-54)	160	1,364,731.12	20	182,315.20	114	#####	6	37,427.18	6	11,675.83	61	154,630.61	0	0.00	0.00		207	1,424,853.80
People over 55 years of age with Support needs (this category must be exclusive of alarm services)	2,103	1,955,711.34	1,055	138,310.00	0	0.00	458	205,402.84	625	315,622.00	213	430,674.31	530	690,688.30	0.00		2,881	1,780,697.45
Generic Floating support to prevent homelessness (tennacy support services which cover a range of user needs but which must be exclusive of fixed site support)	2,555	4,328,998.47	0	0.00	0	0.00	0	0.00	1,550	1,134,792.73	1,230	2,828,813.85	87	298,010.94	0.00		2,867	4,261,617.52
Alarm Services (including in sheltered/extra care)	7,438	353,735.18	0	0.00	0	0.00	4,678	215,091.53	0	0.00	0	0.00	1,802	42,942.00	0.00		6,480	258,033.53
Expenditure which does not directly link to the spend plan categories above. (Explanation required in accompanying email)	22	275,750.00	22	275,250.15	0	0.00	0	0.00	0	75,000.00	0	0.00	0	0.00	0.00		22	350,250.15
TOTALS	14,878	20,637,130.62	1,194	2,242,696.42	307	#####	5,570	2,202,986.70	2,446	2,171,667.48	3,017	7,997,328.58	2,882	2,116,902.96	51,158.99	0.00	15,416	20,629,231.00

- Blaenau Gwent
E-bost: supporting.people@blaenau-gwent.gov.uk
Ffôn: 01495 354682
- Caerffili
E-bost: supportingpeople@caerphilly.gov.uk
Ffôn: 01443 864548
- Sir Fynwy
E-bost: SupportingPeople@monmouthshire.gov.uk
Ffôn: 07872696489
- Casnewydd
E-bost: supporting.people@newport.gov.uk
Ffôn: 01633 235201
- Torfaen
E-bost: supporting.people@torfaen.gov.uk
Ffôn: 01495 766949
- Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol Gwent
E-bost: supporting.people@blaenau-gwent.gov.uk
Ffôn: 01495 355975

